



## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 26 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

**Gofynnir yn garedig i glercod rhannu hwn gyda'u haelodau a'u staff**

---

## Newyddion

**Beth yw rôl Cynghorydd Cymuned neu Dref? Gadewch inni chwalu'r mythau**

Mae Cynghorydd Cymuned neu Dref yn ddeiliad swydd gyhoeddus, nid yn wirfoddolwr. Mae cynghorydd yn was cyhoeddus ac nid oes ganddynt awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch busnes y Cyngor Cymuned neu Dref ar ei ben ei hunain. Prif waith cynghorydd yw cymryd rhan weithredol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd o fewn ei gyngor. Fel arfer, mae tymor swydd cynghorydd a etholir drwy bleidlais yn para am bum mlynedd, tra bydd cynghorwyr cyfetholedig yn gwasanaethu o'r adeg y cânt eu penodi hyd at yr etholiadau cyffredin nesaf. Fel corff corfforaethol, mae gan gynghorau gyfrifoldebau sylweddol sy'n ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd ariannol, gyda chefnogaeth gan weithwyr a benodir gan y cyngor. Rhennir y cyfrifoldebau hyn ar y cyd rhwng yr holl gynghorwyr. O ystyried ystod eang y cyfrifoldebau hyn, y mae llawer ohonynt wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth, mae'n hanfodol bod cynghorwyr yn cael hyfforddiant er mwyn deall sut y gallant gyflawni eu rôl yn effeithiol. Heb hyfforddiant, mae perygl gwirioneddol y gall pethau fynd yn chwith, a gall y gymuned ddioddef y canlyniadau. Cofiwch mai dim ond yr hyn rydych yn ei wybod yr ydych yn ei wybod, ac mae dealltwriaeth glir o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau yn hanfodol. **Gweler ein adran isod am hyfforddiant.**

------------------------------

Annwyl Rhanddeiliad,

Heddiw (Dydd Iau 18 Mehefin), mae'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd (RAIB) wedi cyhoeddi ei hadroddiad terfynol parthed y gwrthdrawiad trên ar y Llinell Cambrian yn Nhalerddig ar Hydref 21 Hydref 2024. Mae hyn yn dilyn yr adroddiad interim a gyhoeddwyd y llynedd.

Cynghorir teithwyr rheilffordd a bysiau i ddisgwyl newidiadau a gwasanaethau wedi canslo ddydd Iau 8 Ionawr oherwydd rhybuddion melyn ac ambr am eira a gwynt ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

Cynghorir teithwyr ledled Cymru a'r Gororau i wirio cyn iddynt deithio gan fod nifer o newidiadau i wasanaethau ar waith.

Diogelwch ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr sy'n parhau fel ein prif flaenoriaeth fel diwydiant, ac ar ran Trafnidiaeth Cymru a Network Rail Wales & Borders, hoffem gydnabod difrifoldeb y digwyddiad a'r effaith y mae wedi'i gael. Mae ein meddyliau yn parhau i fod gyda theulu ac anwyliaid Mr David Tudor Evans, a bu farw yn ystod y digwyddiad. Mae cefnogaeth yn parhau i fod ar gael i bawb yr effeithir arnynt.

Mae adroddiad RAIB yn nodi canfyddiadau ac argymhellion pwysig ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd, TrC a Network Rail. Mae Trafnidiaeth Cymru a Network Rail yn adolygu'r argymhellion yn ofalus, ac yn parhau i gydweithio i sicrhau bod gwersi yn cael eu nodi a'u dysgu.

Mae digwyddiadau o'r fath yn anghyffredin tu hwnt, ac rydym yn parhau i weithredu un o'r rhwydweithiau rheilffordd fwyaf diogel yn y byd ar gyfer ein teithwyr a chydweithwyr. Fodd bynnag, ni fyddwn ni fyth yn hunanfodlon, a byddwn yn gweithio'n galed i leihau risg yn barhaus. Byddwn yn myfyrio ar yr adroddiad hwn ochr-yn-ochr â'r ymchwiliadau ymuno mewnol sydd eisoes wedi'u cynnal.

Mae'r adroddiad ar gael yma: [Rail%20Accident%20Investigation%20Branch%20reports%20-%20GOV.UK]Adroddiadau'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffordd - GOV.UK

gyda diolch,

Marie Daly a Nick Millington

Cylchlythyr



**Gofal a gynlluniwyd y GIG – a yw'n addas ar gyfer y dyfodol?**

**Er gwaethaf y cynnydd diweddar, mae gormod o bobl yn dal i aros yn rhy hir am driniaeth a dim digon o ffocws ar newid parhaol**

Mewn erthygl a gyhoeddwyd heddiw, rydym yn dangos sut roedd rhestrau aros eisoes yn broblem ond wedi cynyddu'n sylweddol ers 2020. Mae'r arhosiadau hiraf – o dros ddwy flynedd – wedi lleihau'n sylweddol ers hynny trwy gynnydd mawr mewn cyllid, ond nid mor gyflym ag yr oedd Llywodraeth Cymru eisiau a gyda gormod o ddibyniaeth ar atebion tymor byr.

Mae llawer mwy o bobl yn dal i aros yn hirach na chyn pandemig COVID-19, gyda gwahaniaethau mawr yn dibynnu ar ble mae pobl yn byw a'r driniaeth maen nhw'n aros amdano. Yn y cyfamser, byddai twf parhaus yn y galw yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau sydd eisoes wedi'u hymestyn.

Yn 2025, fe wnaethom adrodd ar ofal cynlluniedig y GIG ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Canfuom fod angen i fyrddau iechyd gynllunio'n well ar gyfer y galw yn y dyfodol a bod yn fwy effeithlon trwy newid sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu a lleihau nifer yr apwyntiadau a gollwyd a gweithrediadau wedi'u canslo. Roedd angen iddynt hefyd wneud mwy i fynd i'r afael â'r risg o niwed i gleifion wrth aros.

Mae'r erthygl yn nodi rhai cwestiynau allweddol i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru fynd i'r afael â nhw, a byddwn yn parhau i olrhain ymatebion byrddau iechyd i'n hargymhellion blaenorol.

Gallwch ddarllen yr erthygl lawn ar ein gwefan.

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol




## Ymunwch â ni ar gyfer cyfarfod wyneb yn wyneb o dyfwyr cymunedol

Dewch i gwrdd â thyfwyr cymunedol eraill a rhannwch eich llwyddiannau a'ch heriau. Bydd y cyfarfod hwn yn gymysgedd o daith o amgylch yr ardd, gweithgaredd ymarferol, trafodaeth wedi'i hwyluso a chinio hyfryd wedi'i wneud â chynnyrch Growing for Change.

Mae croeso i unrhyw un sy'n ymwneud â thyfu cymunedol. Bydd yn ddiwrnod cefnogol, pleserus ac ysbrydoledig - gadewch i ni eich trin!

**Ble**: The Barn, Fferm Moelyci, Felin Hen Road, Tregarth, Bangor, LL47 4BB
**Pryd**: Dydd Mawrth 30 Mehefin, 10:30 - 4:00

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth ac i archebu eich lle

------------------------------

DATGANIAD I'R WASG

# Y Dirprwy Brif Weinidog yn amlinellu dull newydd o fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru

**Bwrw ymlaen â gwaith i gyflwyno cynnig gofal plant trawsnewidiol – penodi grŵp arbenigol. Cyhoeddi cyd-gadeirydd ar gyfer Cynnal – Taliad Plant Cymru - grŵp arbenigol. Cynllun uchelgeisiol a chyflawnadwy i fynd i'r afael â thlodi plant.**

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Mehefin 2026
Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Mehefin 2026

Parch, undod a chwarae teg yw'r gwerthoedd sy'n bwysig i bobl Cymru, a dyma'r sylfeini sydd bellach yn sail i waith y llywodraeth i leihau tlodi, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac adeiladu cymunedau tecach, mwy diogel ac unedig.

Dyna oedd neges y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb, Sioned Williams, yn ei Datganiad Llafar cyntaf i'r Senedd i amlinellu ei blaenoriaethau.


Mae gwaith ar gynnig gofal plant trawsnewidiol eisoes wedi dechrau. Heddiw, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd Grŵp Llywio Arbenigol ar Ehangu'r Ddarpariaeth Gofal Plant yn cael ei sefydlu a fydd yn llywio'r broses o gyflwyno'r cynnig estynedig, ac sy'n un o'r ymrwymiadau yn y cynllun ar gyfer y 100 diwrnod cyntaf.

Rhannu'r dudalen hon:

PERTHNASOL

Tanysgrifiwch i'n cylchlythyr wythnosol

Darllenwch mwy


CANLLAWIAU

Gwnewch gais i’r Gronfa Balchder Llawr Gwlad

Sut i wneud cais am gyllid i gefnogi digwyddiadau i greu amgylchedd LHDTC+ diogel a chroesawgar.

Rhan o: Cynllunio a strategaeth cydraddoldeb

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Mawrth 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 8 Mehefin 2026

Cynnwys

Trosolwg
Pwy all wneud cais i’r Gronfa hon?
Nodau’r Gronfa
Sut i wneud cais
Digwyddiadau Balchder a gefnogwyd yn 2025 drwy’r Gronfa Balchder Llawr Gwlad

## Cronfa Balchder Llawr Gwlad

Rydym yn dymuno ehangu Cronfa Balchder Llawr Gwlad i ardaloedd mwy gwledig a threfi llai. Rydym am helpu i greu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd a bod yn driw i’w hunain ledled Cymru.

Am fwy o manylion

---

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People’s Commissioner for Wales

**MYND I’R AFAEL AG OEDRANIAETH DIGIDOL YNG NGHYMRU: DIOGELU HAWLIAU, MYNEDIAD A CHYNHWYSIAD**

**Dyddiad: Dydd Iau 02 Gorffennaf 2026**

**Amser: 10.30 – 12.00**

**Dyma nodyn atgoffa byr i’ch annog i gofrestru ar gyfer y Weminar Oedraniaeth Ddigidol a gynhelir ar 2 Gorffennaf (dolen isod). Bydd y sesiwn yn archwilio oedraniaeth ddigidol yng Nghymru, gyda ffocws ar ddiogelu hawliau, mynediad a chynhwysiant i bawb.**

Anogir y rhai nad ydynt wedi cofrestru eto i wneud hynny, gan y bydd y weminar efo cyfraniadau gwerthfawr a thrafodaeth ymarferol.

Cofrestrwch yma

---

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

**Plis rhannwch a sefydliadau trydydd sector yn eich ardal**

Annwyl Gyfaill

O dan ein Cynllun Strategol newydd, rydym wedi ymrwymo i gryfhau ein perthynas â sefydliadau trydydd sector yng Nghymru. Rydym am wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o bryd y gall atgyfeiriadau at ein gwasanaeth fod o gymorth. Rydym hefyd am sicrhau mewnwelediadau cyson a dibynadwy gan sefydliadau trydydd sector i’r materion sy’n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Er mwyn ein helpu i dargedu'r gwaith hwn yn y ffordd orau, rydym am gipio yn gyntaf lefel yr ymwybyddiaeth o'n rôl a'n pwerau o fewn y sector. Felly, rydym yn eich gwahodd i gwblhau arolwg byr.

https://www.surveymonkey.com/r/NCB3C2M

Ni fydd yr arolwg hwn yn cymryd mwy na 5 munud i'w gwblhau. Bydd eich ymateb i'r arolwg hwn yn ein helpu i:

- ddeall pa mor gyfarwydd yw sefydliadau'r trydydd sector â ni
- nodi lle gallai rhagor o wybodaeth neu ymgysylltu fod yn ddefnyddiol


**Os ydych yn gyffordus i wneud hyn, byddwn yn gwerthfawrogi pe allech rannu'r arolwg hwn gyda'ch rhwydweithiau.**

Bydd yr arolwg yn cau ar **18 Gorffennaf.**

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:




**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.


Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

........................

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:





**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

**Nodau Datblygu Ymarfer i gyd iw gweld yma**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:





**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3 clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

**Cliciwch yma i llogi lle**

---

## SWYDDI

## Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:


Un Llais Cymru
One Voice Wales
Amdanom Ni | Aelodaeth | Gwasanaethau | Hyfforddiant | Digwyddiada

Cyfleoedd

Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref

Fel rhan o'n haelodaeth flynyddol, rydym yn cynnig cyfle i'n Haelodau Cynghorau Cymuned a Thref hysbysebu unrhyw swyddi gwag sy'n gysylltiedig â'r sector gyda ni. Rydym yn annog Cynghorau i ddefnyddio'r adran Swyddi Gwag hon i hysbysebu swyddi gweigion gan gynnwys Clerc, Swyddogion Ariannu Cyfrifol, a staff eraill sydd eu hangen yn eu Cynghorau.

Mae'r swyddi gwag diweddaraf yn ymddangos isod:

Cyngor Tref y Barri: Prif Swyddog (Clerc y Dref)

Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch – Clerc y Plwyf a Swyddog Cyllid Cyfrifol – Dyddiau cau 5yh ar 30ain o Fehefin 2025

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

**Mwy o Fanylion**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gynrychiolydd i Gymru ar y Panel Ymgynghorol Arbenigol

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

**Swyddi Gwasanaeth Sifil**

**Cyfleoedd Allanol**

---



## Cadwch y Dyddiad

**Cynhadledd Cenedlaethol a Seremoni Gwobrau Un Llais Cymru**

**Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru**

**Cynhadledd ar y cyd gyda SLCC**

Tachwedd 18 - manylion i ddilyn yn y bwletin nesaf

1af GORFFENNAF 2026 30ain MEDI 2026

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

## Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

### Cynllun Grantiau Bach Argyfwng Costau Byw: Ceisiadau Bellach ar Agor



**A allai eich cyngor wneud gwahaniaeth yn eich cymuned?**

**Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer Cynllun Grantiau Bach Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru. Gall Cynghorau Cymuned a Thref cymwys sydd ag incwm blynyddol o £25,000 neu lai, ac nad ydynt wedi cynnal prosiect Argyfwng Costau Byw o'r blaen, wneud cais am £500 i gefnogi mentrau lleol sy'n helpu preswylwyr drwy'r argyfwng costau byw.**

**Ddim yn siŵr a yw eich prosiect yn gymwys? Cysylltwch â Thîm Argyfwng Costau Byw am gyngor a chymorth cyn gwneud cais.**

**Cliciwch yma i gael mynediad at y ffurflen gais**


---

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur • Local Places for Nature

Bioamrywiaeth Un Llais Cymru • One Voice Wales Biodiversity

### Pecynnau Bioamrywiaeth 2026 - 27



Mae'r dyddiad cau ar gyfer ail rownd ein cynllun pecynnau Bioamrywiaeth bron yma, ond peidiwch â phoeni! Mae yna amser o hyd i gyflwyno cais a'ch tystiolaeth cyn **Mehefin 30ain**. Mae ein cyfres o becynnau ar gael i bob Cyngor Cymuned a Thref ledled Cymru ac wedi'u cynllunio er mwyn eich galluogi chi i gyflawni eich Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi derbyn un o'n pecynnau gallwch chi wneud cais o hyd!


Manylion pellach

## Wythnos Natur Cymru: 4 - 12 Gorffennaf

Mae'r Tîm Bioamrywiaeth yn dathlu trwy gynnal cyfres o sesiynau BioBlitz ledled y wlad.

Ym mhob digwyddiad 1 awr byddwn yn mynd am dro hamddenol mewn lleoliadau hardd, gan ddefnyddio ap LERC i gofnodi cymaint o rywogaethau ag y gallwn. Mae'r dyddiadau eisoes wedi'u hanfon allan; cadwch lygad am fanylion terfynol a gwybodaeth archebu - i ddod yn fuan!

## Wythnos Rhywogaethau Ymledol: 22 - 28 Mehefin



Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cael effaith dirywiol iawn ar fywyd gwyllt y DU, gan fygwth rhywogaethau brodorol a lleihau bioamrywiaeth. Mae bod yn wyliadwrus a chofnodi rhywogaethau wrth eu gweld yn ffordd bwysig o gymryd camau i amddiffyn ein hecosystemau. Ewch i www.biodiversitywales.org.uk am ragor o wybodaeth am adnabod, cofnodi a'r camau eraill y gallwn eu cymryd.

*Delwedd: Cacynen felyngoes gan Barry Griffiths.*

## Adroddiadau Adran 6



Rydym wedi derbyn ymateb anhygoel i'n cais i gynghorau anfon eu Hadroddiadau Adran 6 i mewn cyn i ni gyflwyno'r rhestr i Lywodraeth Cymru. Diolch i'r 43% o gynghorau sydd bellach wedi rhannu eu hadroddiad.

Bydd y rhestr newydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn fuan. Unwaith y bydd y rhestr wedi'i diweddaru, cymerwch olwg a rhowch wybod i ni os yw eich cyngor ar goll.

---

**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

SA18 3AF

Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite